

CBAC Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Uned 1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn
gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar
ganlyniadau

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol,
a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w asesu gyntaf o 2024

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Mewnol)

Fersiwn 3 - Ionawr 2024



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Enghreifftiau ychwanegol wedi'u hychwanegu i gynllun marcio Astudiaeth Achos A.	10-15
3	Diweddarwyd datganiadau Taflen Farciau'r Ganolfan.	20

Cynnwys

	Tudalen
UNED 1:	
Astudiaethau Achos	4
Tasgau	8
Cynllun Marcio	10
Mapio	18
Taflen Farciau'r Ganolfan	19



**LEFEL 3 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

UNED 1 ASESIAID DI-ARHOLIAD:

Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

AMSER: 20 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

BYDD GENNYCH 20 AWR I GWBLHAU'R ASESIAID HWN.

Rhaid i chi ddewis un astudiaeth achos (a neu b) i ddarparu eich tystiolaeth ar gyfer Tasg 1 a Thasg 2.

Rhaid defnyddio'r un astudiaeth achos ar gyfer y ddwy dasg.

Tasg 1: Adroddiad

Mae gofyn i chi lunio adroddiad yn seiliedig ar astudiaeth achos a neu astudiaeth achos b. Rhaid i'r adroddiad fod yn seiliedig ar egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Dylech chi dreulio tua **14** awr ar y dasg hon.

Y nifer mwyaf o eiriau ar gyfer y dasg hon yw 3500.

Gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau canlynol wrth gwblhau'r dasg hon:

- meddalwedd TGCh
- astudiaethau achos.

Gellir defnyddio nodiadau dosbarth. Dylai'r nodiadau fod yn ddim mwy na chwe ochr o bapur A4. Gellir eu hysgrifennu â llaw neu ar brosesydd geiriau. Dylid eu hysgrifennu yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun ac ni ddylent gynnwys atebion wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw. Yr athro/aseswr sy'n gyfrifol am adolygu'r nodiadau i sicrhau eu bod yn bodloni'r canllawiau uchod. Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau sy'n cael eu defnyddio gan yr ymgeisydd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio'r rhyngwrth wrth gwblhau'r dasg hon.

Tasg 2: Pecyn Gwybodaeth

Mae gofyn i chi ddarparu gwybodaeth i staff sy'n newydd i weithio yng Nghymru yn y math o leoliad lechyd a Gofal Cymdeithasol dan sylw yn yr astudiaeth achos o'ch dewis chi.

Dylech chi dreulio tua **6** awr ar y dasg hon.

Y nifer mwyaf o eiriau ar gyfer y dasg hon yw 1500.

Gallwch ddefnyddio unrhyw adnoddau wrth gwblhau'r dasg hon, gan gynnwys:

- meddalwedd TGCh
- nodiadau dosbarth
- astudiaethau achos.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae'n bwysig eich bod chi'n gweithio'n annibynnol ac yn sicrhau mai eich gwaith chi yn unig, heb gymorth, yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Bydd angen i chi a'ch athro/athrawes lofnodi datganiad mai eich tystiolaeth chi yn unig yw'r holl dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno.

Cewch eich cynghori i wirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn fanwl ac yn gywir.

Dewiswch un o'r astudiaethau achos canlynol (a neu b) i seilio eich tystiolaeth arni ar gyfer tasg 1 a thasg 2:

D.S. Rhaid defnyddio'r un astudiaeth achos ar gyfer y **ddwy** dasg.

Naill ai:

Astudiaeth Achos A

Mae Siân yn 45 oed ac yn gynorthwyydd gofal iechyd profiadol. Mae hi'n gweithio ar ward lawfeddygol i ddynion mewn ysbyty mawr. Mae Siân yn gweithio fel rhan o dîm o gynorthwyydd gofal iechyd, nyrsys cofrestredig a gweithwyr proffesiynol eraill.

Yn ystod un o'i sifftiau mae Siân yn gweithio gyda Dafydd, sy'n 23 oed ac sydd ag anableddau dysgu ychwanegol. Mae'n byw mewn cartref gofal preswyl a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty i gael llawdriniaeth ar ei goes ar ôl iddo gwmpo. Mae Siân yn cyflwyno ei hun i Dafydd ac yn esbonio y bydd hi'n gofalu amdano.

Mae Dafydd yn cael ei hebrwng i'r ysbyty gan weithiwr cefnogi o'r cartref gofal a'i fam. Mae'r gweithiwr cefnogi yn esbonio'r dull person-ganolog mae'r cartref gofal preswyl yn ei ddefnyddio i gefnogi Dafydd. Mae hi'n gofyn i Dafydd a yw hi'n gallu rhannu ei gynllun gofal a chymorth gyda Siân ac mae ef yn cytuno. Mae gweithiwr cefnogi Dafydd yn dweud ei bod yn bwysig i Dafydd ei fod yn gwneud ei ddewisiadau a'i benderfyniadau ei hun am ei fywyd bob dydd. Fodd bynnag, mae angen mwy o amser a chefnogaeth arno wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyllidebu, siopa a bod mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd. Mae'n bwysig iddo ef ei fod yn gallu gofalu am ei ofal personol a'i hylendid ei hun. Mae Dafydd yn hoffi gwyllo'r teledu, gwrando ar gerddoriaeth a sgwrsio. Mae'r wybodaeth mae Dafydd, ei weithiwr cefnogi a'i fam wedi'i rhannu yn cael ei chofnodi ar gofnod ysbyty Dafydd.

Yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty, mae pawb yn awyddus i gefnogi Dafydd i gyflawni'r canlyniadau personol mae ef yn eu dymuno sy'n cynnwys: dysgu byw ar ei ben ei hun, gallu edrych ar ei ôl ei hun a gallu mynd allan i wneud ffrindiau.

Wrth siarad â Dafydd am ei lawdriniaeth a'r gofal a chymorth yn yr ysbyty, mae Siân yn sylwi ei fod weithiau'n cael trafferth deall beth mae hi'n ei ddweud wrtho. Mae hi'n awgrymu gweithio gyda'r gweithiwr cefnogi a'r nyrs cyswllt anghenion dysgu ychwanegol yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty. Ar ôl siarad gyda'r gweithiwr cefnogi a Dafydd, mae'r nyrs cyswllt anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau bod Dafydd yn deall ei anghenion a'i driniaeth iechyd a bod staff yn yr ysbyty yn deall sut i'w helpu i gyfleu ei anghenion a'i ddewisiadau. Yna mae Siân yn awgrymu y dylai Dafydd newid i'w ŵn ysbyty yn barod ar gyfer ei lawdriniaeth ac mae hi'n dechrau cau'r llenni. Mae Dafydd yn dechrau cynhyrfu oherwydd hyn. Mae Siân yn gofyn iddo a hoffai gael gweithiwr sy'n ddyn i'w gynorthwyo. Mae'n dweud ei fod yn gallu ei wneud ar ei ben ei hun. Mae gweithiwr sy'n ddyn yn siarad â Dafydd ond mae'n sefyll tu allan i'r llenni a phan fydd Dafydd yn barod, mae'n sicrhau bod y gŵn yn gyfforddus ac wedi'i gau yn gywir.

Mae'r nyrs cyswllt anghenion dysgu ychwanegol yn mynd gyda Dafydd i'r theatr ar gyfer ei lawdriniaeth. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, mae Siân yn derbyn galwad gan rywun yn holi am Dafydd. Mae Siân yn esbonio nad yw hi'n gallu rhyddhau gwybodaeth heb ganiatâd yr unigolyn. Mae'n cymryd neges i'w throsglwyddo i Dafydd.

Ar ôl ychydig ddiwrnodau ac yn dilyn asesiad rhyddhau, mae Dafydd yn cael dychwelyd i'w gartref gofal preswyl. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â'r gofal a'r cymorth y bydd eu hangen arno ar ôl ei lawdriniaeth yn cael ei chofnodi yn ei gynllun gofal a chymorth, ynghyd â manylion pellach ynghylch sut bydd y cymorth hwn yn cael ei roi.

Neu:

Astudiaeth Achos B

Mae Gwen yn 80 oed ac yn siarad Cymraeg. Mae hi'n byw ar ei phen ei hun yn ei chartref ei hun ac mae ganddi ddementia. Bu farw gŵr Gwen yn ddiweddar ac ers hynny, mae hi wedi ei chael hi'n anodd ymdopi â rhai gweithgareddau bywyd bob dydd. Mae ei merch, Lowri, wedi awgrymu y dylai ei mam gael help gartref gan ei bod yn cael trafferth gyda'i hylendid personol ac wrth gymryd meddyginiaeth a choginio.

Mae Gwen yn mwynhau ei gardd a bod yn yr awyr agored ond mae'n ei chael braidd yn anodd ymdopi heb gefnogaeth. Mae hi wrth ei bodd yn coginio a phobi ac mae wedi ennill llawer o wobrau am ei theisennau ond nid yw'n gallu pobi nawr heb gymorth. Mae hi wir yn mwynhau cymdeithasu, cerddoriaeth a gwyllo ffilmiau.

Mae Lowri yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i ofyn am asesiad ar gyfer ei mam. Cafodd Jan ei phennu yn weithiwr cymdeithasol i Gwen, gan ei bod hi hefyd yn siarad Cymraeg. Pam mae Jan yn dod i ymweld, mae hi'n cyflwyno ei hun i Gwen yn Gymraeg ac yn esbonio ei bod hi yno i'w chefnogi gyda phenderfyniadau am y pethau sy'n bwysig iddi. Mae Jan yn gofyn iddi beth sy'n bwysig iddi. Mae Gwen yn dweud ei bod hi am aros yn ei chartref ei hun, parhau i gymryd rhan yn y gymuned a gallu cyfarfod â ffrindiau sy'n siarad Cymraeg. Mae Gwen yn sylweddoli ei bod hi'n cael rhywfaint o drafferth ymolchi, gwisgo a choginio ac nid yw bob amser yn cofio cymryd ei meddyginiaeth. Mae Jan yn gwranddo'n astud ar Gwen ac yn gofyn iddi a fyddai cael cynorthwyydd gofal yn ymweld â hi bob bore i'w helpu i ymolchi a gwisgo a gwneud ei brecwast iddi yn ddefnyddiol. Mae hi hefyd yn gofyn a fyddai Gwen yn hoffi ymweld â'r Gwasanaeth Dydd Dementia lle mae yna siaradwyr Cymraeg eraill y byddai hi o bosibl yn eu hadnabod ac efallai y byddai'n hoffi sgwrsio â nhw. Mae gardd, cerddoriaeth a ffilmiau yn y Gwasanaeth Dydd Dementia a gallai hefyd gael pryd o fwyd amser cinio. Nid yw Gwen yn siŵr ond mae hi'n dweud y bydd hi'n mynd er mwyn gweld sut beth yw'r lle.

Pan mae Gwen a Lowri yn cyrraedd y Gwasanaeth Dydd Dementia, mae cynorthwyydd gofal yn dod i'w cyfarch, gan gyflwyno ei hun yn Gymraeg a'u tywys o amgylch. Mae'r cynorthwyydd gofal yn esbonio'r dull gofal person-ganolog a'r amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig, diddordebau a gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yn y ganolfan. Mae'r cynorthwyydd gofal yn gofyn i Gwen beth yr hoffai ei wneud. Mae Gwen yn dweud y byddai'n hoffi gwranddo ar gerddoriaeth, gwyllo ffilmiau a gweithio yn yr ardd. Mae hi hefyd am rannu ei gwybodaeth a'i sgiliau pobi ag eraill, mewn amgylchedd cefnogol. Mae Gwen yn gallu gweld y gallai'r Gwasanaeth Dydd Dementia ei helpu i wneud y pethau hyn ac y gallai hi hefyd sgwrsio â siaradwyr Cymraeg eraill. Mae'r Gwasanaeth Dydd Dementia yn cael ei redeg ar y cyd gan therapyddion iechyd a gofal cymdeithasol a nyrsys arbenigol sy'n gweithio gyda'r staff i helpu i fonitro a chefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Maen nhw'n cael eu cludo i'r ganolfan ac oddi yno, felly mae Gwen yn gallu mynychu ddwywaith yr wythnos. Mae Gwen yn teimlo ei bod hi am wneud hyn.

Yn dilyn yr asesiad o anghenion gofal, mae cynllun gofal a chymorth yn cael ei roi ar waith sy'n cynnwys cryfderau Gwen a'r canlyniadau mae hi'n eu dymuno. Mae gofal cartref yn cael ei drefnu, ac mae cynorthwyydd gofal yn dechrau ymweld â Gwen deirgwaith y dydd, ond dim ond dwywaith ar y diwrnodau mae hi'n mynychu'r Gwasanaeth Dydd Dementia. Yn ystod ymweliad y bore, mae'r cynorthwyydd gofal yn defnyddio'r allwedd sy'n cael ei chadw yn y blwch allweddi y tu allan ac yn cnocio'r drws cyn gadael ei hun i mewn i'r tŷ. Bydd hi'n gofyn i Gwen a yw hi'n barod i gael ei chawod. Bydd y cynorthwyydd gofal yn siarad yn glir wrth ofyn i Gwen beth yr hoffai ei wisgo, yn ei helpu i gael y dillad o'r wardrob ac yn annog Gwen i sicrhau bod ei dillad wedi'u cau yn iawn.

Wedyn, bydd y cynorthwydd gofal yn gofyn i Gwen beth yr hoffai ei gael i frechwast. Bydd hi yn ei baratoi i Gwen, yn atgoffa Gwen i gymryd ei thabledi o'r pecyn swigod, yn sicrhau ei bod yn eu llyncu nhw ac yna'n sgwrsio â Gwen wrth iddi fwyta. Bydd yn dychwelyd amser cinio i sicrhau bod Gwen yn cael cinio ar y diwrnodau pan nad yw'n mynd i'r Gwasanaeth Dydd Dementia.

Yn ystod yr ymweliad gyda'r nos, bydd y cynorthwydd gofal yn cynnig dewis o fyrbrydau ysgafn i Gwen ac yn ei hatgoffa hi i gymryd ei meddyginiaeth. Bydd yn ei holi am ei diwrnod. Cyn iddi adael, bydd yn sicrhau bod Gwen yn barod i fynd i'r gwely. Ar ddiwedd pob ymweliad, bydd y cynorthwydd gofal yn sicrhau ei bod yn gwneud cofnodion cywir yn llyfr nodiadau Gwen. Bydd hi hefyd yn sicrhau bod y gwres ymlaen, os bydd angen, ac yn cloi'r drws wrth adael, gan roi'r allwedd yn y blwch allweddi.

Mae Gwen yn gwneud yn dda, yn mwynhau'r ardd a'r Gwasanaeth Dydd Dementia. Mae Lowri yn hapus ac yn fodlon y bydd ei mam yn ddiogel ac yn cael gofal da gartref ac yn ystod ei hymweliadau â'r ganolfan.

Uned 1 Tasg 1

Mae gofyn i chi lunio adroddiad yn seiliedig naill ai ar **astudiaeth achos a neu astudiaeth achos b**. Rhaid i'r adroddiad fod yn seiliedig ar egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac mae'n rhaid:

- (a) Rhoi **tair** enghraifft o sut mae'r astudiaeth achos rydych chi wedi'i dewis yn arddangos egwyddorion gofal, ac amlinellu sut mae pob enghraifft yn sail i ofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
[12 marc] [DD1, 1.1]
- (b) Esbonio sut mae disgwyl i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, yn yr astudiaeth achos o'ch dewis chi, ddangos a hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau fel rhan o'u gwaith a sut mae hyn o fudd i'r unigolyn maent yn gweithio gydag ef.
[18 marc] [DD2, 1.5]
- (c) Nodi **dwyt** her (challenges) y byddai'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn yr astudiaeth achos yn eu hwynebu wrth hybu gofal o ansawdd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau; disgrifio sut byddai modd mynd i'r afael â'r heriau hyn.
[16 marc] [DD1, 1.5]
- (ch) Dadansoddi'r dulliau gweithredu (approaches) a'r egwyddorion moesegol sy'n gysylltiedig â pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn yr astudiaeth achos o'ch dewis chi.
[12 marc] [DD3, 1.3]
- (d) Myfyrio (reflect) ar sut mae'r dulliau a'r sgiliau sy'n cael eu defnyddio gan y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn yr astudiaeth achos o'ch dewis chi yn:
- datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth (**trust**)
 - dangos cyfathrebu effeithiol
- gydag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth.
[12 marc] [DD3, 1.4]

Cyfanswm y Marciau: [70 marc]

Uned 1 Tasg 2

Mae gofyn i chi ddarparu gwybodaeth i staff sy'n newydd i weithio yng Nghymru yn y math o leoliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol dan sylw yn yr astudiaeth achos o'ch dewis chi.

Dewiswch **un** ffordd o gyflwyno'r wybodaeth o'r rhestr o fformatau isod:

- llyfryn gwybodaeth
- blog
- cyflwyniad.

Rhaid i'r wybodaeth:

- (a) Esbonio sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol cyfredol yng Nghymru yn llywio gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn y lleoliad dan sylw yn yr astudiaeth achos o'ch dewis chi.
[18 marc] [DD2,1.2]
- (b) Crynhoi sut mae'r codau ymarfer/yddygiad proffesiynol yn arwain y gweithwyr gofal wrth weithio yn y lleoliad dan sylw yn yr astudiaeth achos o'ch dewis chi.
[12 marc] [DD1,1.2, 1.5]

Cyfanswm y Marciau: [30 marc]

Cyfanswm y Marciau (Tasg 1 a Thasg 2): [100 marc]

Cynllun marcio wedi'i gwtogi yw hwn. Mae'r fersiwn cyflawn gyda'r cynnwys dangosol yn rhan ohono i'w gael ar wefan ddiogel CBAC www.wjecservices.co.uk

Cynllun Marcio Uned 1 ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnol

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

Uned 1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
Tasg 1

(a) Rhoi tair enghraifft o sut mae'r astudiaeth achos rydych chi wedi'i dewis yn arddangos egwyddorion gofal, ac amlinellu sut mae pob enghraifft yn sail i ofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. [12 marc]	
Band	AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.
4	<p>10-12 marc</p> <p>Ymateb rhagorol sy'n darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tair enghraifft briodol a manwl o'r astudiaeth achos a ddewiswyd • amlinelliad sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae'r egwyddorion gofal yn sail i ofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
3	<p>7-9 marc</p> <p>Ymateb da sy'n darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • o leiaf dwy enghraifft glir a phriodol o'r astudiaeth achos a ddewiswyd • amlinelliad sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae'r egwyddorion gofal yn sail i ofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
2	<p>4-6 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • o leiaf un enghraifft briodol o'r astudiaeth achos a ddewiswyd • amlinelliad sy'n dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r egwyddorion gofal yn sail i ofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
1	<p>1-3 marc</p> <p>Ymateb cyfyngedig sy'n darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dim enghreifftiau o'r astudiaeth achos a ddewiswyd • amlinelliad nad yw'n dangos fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r egwyddorion gofal yn sail i ofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
	<p>0 marc</p> <p>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

(b) Esbonio sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos rydych chi wedi'i dewis arddangos a hybu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn eu gwaith, a sut mae hyn o fantais i'r unigolyn maen nhw'n gweithio gydag ef/hi.[18 marc]	
Band	AA2: <i>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.</i>
5	16-18 marc Esboniad rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr o sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd arddangos a hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn eu gwaith. Esboniad manwl sy'n dangos sut mae hyn o fantais i'r unigolyn.
4	12-15 marc Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd arddangos a hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn eu gwaith. Esboniad clir sy'n dangos sut mae hyn o fantais i'r unigolyn.
3	8-11 marc Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd arddangos a hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Esboniad cyffredinol sy'n dangos sut mae hyn o fantais i'r unigolyn.
2	4-7 marc Esboniad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan o sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd arddangos a hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Esboniad sylfaenol sy'n dangos sut mae hyn o fantais i'r unigolyn.
1	1-3 marc Esboniad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd arddangos a hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Ychydig iawn o gyfeiriad, os o gwbl, at y ffordd mae hyn o fantais i'r unigolyn.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

(c) Nodi dwy her (challenges) y byddai'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn yr astudiaeth achos yn eu hwynebu wrth hybu gofal o ansawdd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau; disgrifio sut byddai modd ymateb i bob un o'r heriau hyn. [2 x 8] [16 marc]		
Band	AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.	
	Her 1	Her 2
4	7-8 marc Ymateb rhagorol sy'n nodi ac yn disgrifio sut byddai modd ymateb i her hybu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.	7-8 marc Ymateb rhagorol sy'n nodi ac yn disgrifio sut byddai modd ymateb i her hybu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
3	5-6 marc Ymateb da sy'n nodi ac yn disgrifio sut byddai modd ymateb i her hybu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.	5-6 marc Ymateb da sy'n nodi ac yn disgrifio sut byddai modd ymateb i her hybu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
2	3-4 marc Ymateb sylfaenol sy'n nodi ac yn disgrifio sut byddai modd ymateb i her hybu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.	3-4 marc Ymateb sylfaenol sy'n nodi ac yn disgrifio sut byddai modd ymateb i her hybu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
1	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n nodi ac yn disgrifio sut byddai modd ymateb i her hybu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n nodi ac yn disgrifio sut byddai modd ymateb i her hybu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

(ch) Dadansoddi'r dulliau gweithredu (approaches) a'r egwyddorion moesegol sy'n gysylltiedig â pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn yr astudiaeth achos o'ch dewis chi. [12 marc]	
Band	AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau.</i>
4	10-12 marc Dadansoddiad rhagorol sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ddulliau ac egwyddorion moesegol wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • trafodaeth graff a gwybodus am ddulliau ac egwyddorion moesegol parchu cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • barn resymedig a manwl mewn perthynas â'u defnyddio yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.
3	7-9 marc Dadansoddiad da sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o ddulliau ac egwyddorion moesegol wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • trafodaeth ddilys ar y cyfan am ddulliau ac egwyddorion moesegol parchu cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • barn resymedig mewn perthynas â'u defnyddio yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.
2	4-6 marc Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ac egwyddorion moesegol wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • peth trafodaeth ddilys am ddulliau a/neu egwyddorion moesegol parchu cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • rhywfaint o farn mewn perthynas â'u defnyddio yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.
1	1-3 marc Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o ddulliau ac egwyddorion moesegol wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • trafodaeth gyfyngedig am ddulliau neu egwyddorion moesegol parchu cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis wrth ddarparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • fawr ddim barn, os o gwbl, mewn perthynas â'u defnyddio yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

<p>(d) Myfyrio (reflect) ar sut mae'r dulliau a'r sgiliau sy'n cael eu defnyddio gan y gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos rydych chi wedi'i dewis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth (<i>trust</i>) • dangos cyfathrebu effeithiol <p>gydag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth. [12 marc]</p>	
Band	AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau.</i>
4	10-12 marc
	<p>Ystyriaeth ragorol a manwl sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn ffurfio casgliadau craff a gwybodus am sut mae'r dulliau a'r sgiliau mae'r gweithwyr gofal a chymorth yn eu defnyddio yn yr astudiaeth achos dan sylw yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth gydag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth. • yn darparu gwerthusiad rhesymedig a manwl ynglŷn â sut maent yn dangos cyfathrebu effeithiol ag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth.
3	7-9 marc
	<p>Ystyriaeth dda sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn ffurfio casgliadau clir am sut mae'r dulliau a'r sgiliau mae'r gweithwyr gofal a chymorth yn eu defnyddio yn yr astudiaeth achos dan sylw yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth gydag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth. • yn darparu gwerthusiad rhesymedig ynglŷn â sut maent yn dangos cyfathrebu effeithiol ag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth.
2	4-6 marc
	<p>Ystyriaeth sylfaenol sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn ffurfio rhai casgliadau am sut mae'r dulliau a'r sgiliau mae'r gweithwyr gofal a chymorth yn eu defnyddio yn yr astudiaeth achos dan sylw yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth gydag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth. • yn darparu rhywfaint o werthusiad ynglŷn â sut maent yn dangos cyfathrebu effeithiol ag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth.
1	1-3 marc
	<p>Ystyriaeth gyfyngedig sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn ffurfio casgliadau cyfyngedig am sut mae'r dulliau a'r sgiliau mae'r gweithwyr gofal a chymorth yn eu defnyddio yn yr astudiaeth achos dan sylw yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth gydag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth. • yn darparu ychydig o werthusiad ynglŷn â sut maent yn dangos cyfathrebu effeithiol ag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth
	0 marc
	Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 2

<p>(a) Esbonio sut mae'r deddfwriaeth a'r pholisïau cenedlaethol presennol yng Nghymru yn annog (<i>drive</i>) gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn y lleoliad sydd dan sylw yn yr astudiaeth achos rydych chi wedi'i dewis. [18 marc]</p>	
Band	AA2: <i>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.</i>
4	<p style="text-align: center;">14-18 marc</p> <p>Esboniad rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol yng Nghymru yn annog gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</p>
3	<p style="text-align: center;">10-13 marc</p> <p>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol yng Nghymru yn annog gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</p>
2	<p style="text-align: center;">6-9 marc</p> <p>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol yng Nghymru yn annog gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-5 marc</p> <p>Esboniad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol yng Nghymru yn annog gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</p>
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p style="text-align: center;">Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</p>

(b) Crynhoi sut mae'r codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol yn arwain y gweithwyr gofal wrth wneud eu gwaith yn y lleoliad sydd dan sylw yn yr astudiaeth achos rydych chi wedi ei dewis. [12 marc]	
Band	AA1: <i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.</i>
4	10-12 marc Crynodeb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae'r codau ymarfer/ymddygiad proffesiynol yn arwain y gweithwyr gofal wrth wneud eu gwaith yn y lleoliad yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.
3	7-9 marc Crynodeb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae'r codau ymarfer/ymddygiad proffesiynol yn arwain y gweithwyr gofal wrth wneud eu gwaith yn y lleoliad yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.
2	4-6 marc Crynodeb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r codau ymarfer/ymddygiad proffesiynol yn arwain y gweithwyr gofal wrth wneud eu gwaith yn y lleoliad yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.
1	1-3 marc Crynodeb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut mae'r codau ymarfer/ymddygiad proffesiynol yn arwain y gweithwyr gofal wrth wneud eu gwaith yn y lleoliad yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Mapio tasgau Aseiad Di-arholiad Uned 1 i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Meini prawf asesu	Cynnwys y fanyleb					Dyranriad marciau			
	Adran					Cyfanswm Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
1.1	1.2	1.3	1.4	1.5					
Tasg 1									
(a)	(a)					12	12		
(b)					(b)	18		18	
(c)					(c)	16	16		
(ch)			(ch)			12			12
(d)				(d)		12			12
Tasg 2									
(a)	(a)	(a)				18		18	
(b)		(b)				12	12		
Cyfanswm						100	40	36	24



Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Asesiad di-arholiad – Uned 1: Tasgau 1 a 2

Enw'r Ymgeisydd:

Rhif yr Ymgeisydd:

Enw'r Ganolfan:

Rhif y Ganolfan:

Asesiad di-arholiad Uned 1: Tasgau 1 a 2

Tasgau	Marc Uchaf	Marc y Ganolfan	Cymedrolwr Marc	SYLWADAU'R GANOLFAN
Tasg 1				
(a)	12			
(b)	18			
(c)	16			
(ch)	12			
(d)	12			
Tasg 2				
(a)	18			
(b)	12			
Cyfanswm	100			

CYFANSWM

100

Asesiad di-arholiad: Sylwadau

I'w gwblhau gan yr unigolion sy'n goruchwyllo'r asesiad di-arholiad.

Nodwch ble cafodd cymorth y tu hwnt i arweiniad goruchwyllo arferol ei roi a sut mae hyn wedi effeithio ar y marciau a gafodd eu dyfarnu.

Rhestrwch y ffynonellau gwybodaeth a gafodd eu defnyddio wrth ddatblygu'r asesiad di-arholiad

HYSBYSIAD I YMGEISWYR

Rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.

Os byddwch chi wedi copïo gwaith rhywun arall, wedi caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu wedi twyllo mewn unrhyw ffordd arall, mae'n bosibl y cewch eich diarddel o'r cymhwyster dan sylw o leiaf.

DATGANIAD GAN YR ATHRO

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan yr amodau a nodwyd yn y fanyleb.

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig.

Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

Llofnod yr athro:

Dyddiad:

DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD

Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeiswyr** (uchod).

Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith a atodir heb gymorth, heblaw am y cymorth hwnnw mae fy athro wedi esbonio ei fod yn dderbyniol o fewn y fanyleb.

Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad: